**Datganiad o Reswm**

**Cyflwyno cyfyngiadau parcio 'Dim Aros na Llwytho/Dadlwytho ar Unrhyw Adeg' ar Ffordd Llyn Halen (Ffordd Fynediad Aldi), Porthcawl.**

Yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer cyflwyno Siop Aldi newydd ym Mhorthcawl, bwriedir cyflwyno cyfyngiadau parcio newydd ar Ffordd Llyn Halen (Ffordd Fynediad Aldi), Porthcawl fel y dangosir yn Llun Rhif. EB24.01.

Ystyrir ei bod yn briodol gweithredu'r cynllun arfaethedig, sef y cyfyngiadau parcio 'Dim Aros na Llwytho/Dadlwytho ar Unrhyw Adeg' newydd, er mwyn gwella diogelwch ar y ffyrdd ac i gael gwared ar barcio rhwystrol yn ardal y datblygiad.

Ystyrir ei bod yn fuddiol gwneud y Gorchymyn a fydd yn cyflwyno'r darpariaethau newydd am y rhesymau a nodir yn Adran 1 (1) (a)(c)(f) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a nodir fel a ganlyn:

(a) osgoi perygl i bobl neu draffig arall sy'n defnyddio'r ffordd neu unrhyw ffordd neu atal tebygolrwydd y bydd unrhyw berygl o'r fath yn codi,

(c) hwyluso teithio ar y ffordd neu unrhyw ffordd arall i unrhyw ddosbarthiad o draffig (gan gynnwys cerddwyr),

(f) cynnal neu wella amwynderau'r ardal y mae'r ffordd yn rhedeg trwyddi,

Wrth benderfynu a ddylid gwneud Gorchymyn i gyflwyno'r cyfyngiadau parcio newydd, mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried y materion a nodir yn adran 122 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae'n ofynnol yn ôl Adran 122(1) bod y Cyngor yn ymarfer y swyddogaethau a roddwyd iddo gan Ddeddf 1984 (cyhyd ag y bo hynny'n ymarferol gan ystyried y materion a nodir yn adran 122(2)) i sicrhau symud traffig cerbydau a thraffig arall (gan gynnwys cerddwyr) yn gyflym, yn gyfleus ac yn ddiogel, a darparu cyfleusterau parcio addas a digonol ar y briffordd ac oddi arni. Y materion y mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw iddynt yn a122 (2) yw:

1. Dymunoldeb sicrhau a chynnal mynediad rhesymol i safleoedd;

2. Yr effaith ar amwynderau unrhyw ardal yr effeithir arni a phwysigrwydd rheoleiddio a chyfyngu ar ddefnydd cerbydau masnachol trwm o ffyrdd er mwyn cadw neu wella amwynderau'r ardaloedd y mae'r ffordd yn mynd trwyddynt;

3. Y strategaeth ansawdd aer a baratowyd dan adran 80 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1995;

4. Pwysigrwydd hwyluso teithio i gerbydau gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau diogelwch a chyfleustra'r rhai sy'n defnyddio neu'n dymuno defnyddio cerbydau o'r fath;

5. Unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol ym marn y Cyngor.

Ar ôl ystyried dyletswydd A122, ystyrir ei bod yn briodol cyflwyno cyfyngiadau parcio 'Dim aros neu ddadlwytho/llwytho ar unrhyw adeg'.

Y bwriad yw cynnwys y cyfyngiadau yng NGORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A LLWYTHO A PHARCIO) (CYDGRYNHOI) 2024, ac yn unol â Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996.

Mae'r cynllun yn cael ei ariannu gan y datblygwr.